ColegauCymru
CollegesWales

Gwneud yr achos dros newid

Cynhadledd Flynyddol 2026

Making the case for change

Annual Conference 2026

5 Tachwedd 2026
Stadiwm Dinas Caerdydd

5 November 2026
Cardiff City Stadium

Cynnwys
Contents

3 Croeso
Welcome

4 – 5 Agenda

7 – 13 Siaradwyr
Speakers

15 – 19 Gweithdai
Workshops

20 – 21 Noddwyr / Arddangoswyr
Sponsors / Exhibitors

Croeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr
Welcome from the Chair and Chief Executive



Lisa Thomas

Cadeirydd ColegauCymru, Pennaeth a Phrif Weithredwr Y Coleg Merthyr Tudful

ColegauCymru Chair, Chief Executive and Principal of The College Merthyr Tydfil

Daw'r gynhadledd hon ar adeg hollbwysig i Gymru ac addysg bellach. Mae Llywodraeth newydd Cymru yn cynnig cyfle hanfodol i lunio blaenoriaethau ar gyfer dysgwyr, cymunedau a'r economi.

Mae colegau'n wynebu galw cynyddol a phwysau ariannu sylweddol, tra bod Cymru'n wynebu argyfwng cynyddol o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae dysgu gydol oes yn hanfodol i ffyniant, gyda cholegau angen cefnogaeth i helpu oedolion i ailhyfforddi ac uwchsgilio.

Heddiw, rhaid inni gyflwyno'r achos dros fuddsoddi, hyrwyddo llwybrau i bob dysgwr a rhoi addysg bellach wrth wraidd uchelgeisiau Cymru ar gyfer twf, cyfle a thegwch.

Gyda diolch i'n prif noddwr, Agored Cymru.

This conference comes at a defining moment for Wales and further education. A new Welsh Government offers a vital opportunity to shape priorities for learners, communities and the economy.

Colleges face rising demand and significant funding pressures, while Wales confronts a growing crisis of young people not in education, employment, or training. Lifelong learning is essential to prosperity, with colleges needing support to help adults retrain and upskill.

Today, we must make the case for investment, championing pathways for every learner and placing further education at the heart of Wales' ambitions for growth, opportunity and fairness.

With sincere thanks to our headline sponsor, Agored Cymru.



David Hagendyk

Prif Weithredwr, ColegauCymru

Chief Executive, ColegauCymru

Rydym yn cwrdd ar adeg hollbwysig, gyda Rhaglen Lywodraethu newydd yn gyfle i lunio cyfraniad AB at ddyfodol Cymru.

Mae'r achos dros fuddsoddi yn gryfach nag erioed: mae galw dysgwyr yn cynyddu, mae colegau dan bwysau, ac roedd 56,800 o bobl ifanc 16-24 oed yn NEET yn 2025, y gyfradd uchaf yn y DU.

Mae colegau'n cefnogi pobl ifanc, yn mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, yn helpu cyflogwyr i uwchsgilio gweithwyr, yn datblygu gweithlu'r dyfodol ac yn ehangu cyfleoedd i ddysgu trwy'r Gymraeg.

Mae angen buddsoddiad cynaliadwy, cydweithio a gwrando i roi AB wrth wraidd dyfodol Cymru.

We meet at a pivotal time, with a new Programme for Government creating an opportunity to shape FE's contribution to Wales' ambitions.

The case for investment has never been stronger. Learner demand is rising, colleges face significant pressures and 56,800 young people aged 16-24 were NEET in 2025, the highest rate of any UK nation.

Colleges support young people, tackle economic inactivity, help employers upskill workers, develop Wales' future workforce and expand opportunities to learn through Welsh.

Delivering this requires sustainable investment. Today is about making that case, listening and working together to put FE at the heart of Wales' future.

Agenda

8.30 - 9.15	**Cofrestru, Lluniaeth a Rhwydweithio**
9.15 - 9.20	**Croeso a Throsolwg o'r Diwrnod:** Lisa Thomas, *Cadeirydd ColegauCymru*
9.20 - 10.30	**Sgwrs Agored – Economi a Sgiliau Cymru – Cyflwr y Genedl a'r Hyn a Ddaw Nesaf** **1. Pam mae targed cynhyrchiant cenedlaethol newydd Cymru yn bwysig – a pham mai dim ond y dechrau ydyw** Yr Athro Melanie Jones, *Ysgol Busnes Caerdydd* **2. Meddwl trwy Systemau** Alwen Williams, *Uchelgais Gogledd Cymru* **Trafodaeth Banel** **1.** Michelle Matheron, *Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru (Cadeirydd)* **2.** Professor Melanie Jones, *Ysgol Busnes Caerdydd* **3.** Alwen Williams, *Uchelgais Gogledd Cymru* **4.** Mark John, *Tramshed Tech* **5.** Sarah Curtis, *Safran*
10.30 - 10.45	**Prif Anerchiad – Llywodraeth Newydd i Gymru – Y Pum Brif Her sy'n Wynebu Addysg Drydyddol** James Owen, *Medr*
10.45 - 11.00	**Lluniaeth, Rhwydweithio ac Arddangosfa**
11.00 - 11.10	**Anerchiad y Prif Noddwr** Darren Howells, *Agored Cymru*
11.10 - 11.40	**Prif Anerchiad y Gweinidog** Cefin Campbell AS, *Dirprwy Weinidog Sgiliau ac Addysg Drydyddol Llywodraeth Cymru* Wedi'i ddilyn gan, **Mewn Sgwrs â Lisa Thomas**, *Cadeirydd ColegauCymru*
11.40 - 12.45	**GWEITHDAI'R BORE**
	1. Deallusrwydd Artiffisial ar Waith: Astudiaethau Achos mewn Colegau, Gwersi a Ddysgwyd a'r Camau Nesaf **2.** Addysg Oedolion: Beth sy'n Gweithio a Beth Nesaf? **3.** Dysgu ac Addysgu Dwyieithog: Beth Nesaf? **4.** Diwygio Cymwysterau
12.45 - 1.45	**Cinio, Rhwydweithio ac Arddangosfa**
1.45 - 2.50	**GWEITHDAI'R PRYNHAWN**
	1. Dychwelyd i Erasmus+: Beth Sydd Nesaf ar gyfer Cydweithredu Rhyngwladol? **2.** Llwybr Dysgu 16-19 **3.** Cryfhau Llais y Dysgwr: Dysgu o'r Iseldiroedd **4.** Prentisiaethau i Gymru: Y Bennod Nesaf
2.50 - 3.05	**Lluniaeth, Rhwydweithio ac Arddangosfa**
3.05 - 3.45	**Panel Dysgwyr: Beth nesaf? Dysgwyr yn edrych tua'r dyfodol** Dysgwyr Coleg Cambria, Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Catholig Dewi Sant David Hagendyk, *Prif Weithredwr ColegauCymru*
3.45 - 4.00	**Myfyrdodau'r Diwrnod** David Hagendyk, *Prif Weithredwr ColegauCymru*
4.00	**Y Gynhadledd yn dod i ben**

Agenda

8.30 - 9.15	**Registration, Refreshments and Networking**
9.15 - 9.20	**Welcome and Scene Setting:** Lisa Thomas, *ColegauCymru Chair*
9.20 - 10.30	**Real Talk – Wales' Economy and Skills - State of the Nation and What Comes Next** **1. Why Wales' new national productivity target matters – and why it's just the beginning** Professor Melanie Jones, *Cardiff Business School* **2. Systems thinking** Alwen Williams, *Ambition North Wales* **Panel Discussion** **1.** Michelle Matheron, *Learning & Work Institute Cymru (Chair)* **2.** Professor Melanie Jones, *Cardiff Business School* **3.** Alwen Williams, *Ambition North Wales* **4.** Mark John, *Tramshed Tech* **5.** Sarah Curtis, *Safran*
10.30 - 10.45	**Keynote Address – A New Government for Wales – The Five Big Challenges Facing Tertiary Education** James Owen, *Medr*
10.45 - 11.00	**Refreshments, Networking and Exhibition**
11.00 - 11.10	**Headline Sponsor Address** Darren Howells, *Agored Cymru*
11.10 - 11.40	**Ministerial Keynote Address** Cefin Campbell MS, *Welsh Government Deputy Minister for Skills and Tertiary Education* Followed by, **In Conversation with Lisa Thomas**, *ColegauCymru Chair*
11.40 - 12.45	**MORNING WORKSHOPS**
	1. AI in Action: College Case Studies, Lessons Learned and What's Next **2.** Adult Learning: What Works and What's Next? **3.** Bilingual Learning and Teaching: What Next? **4.** Qualifications Reform
12.45 - 1.45	**Lunch, Networking and Exhibition**
1.45 - 2.50	**AFTERNOON WORKSHOPS**
	1. Returning to Erasmus+: What's Next for International Collaboration? **2.** 16-19 Learning Pathway **3.** Strengthening Learner Voice: Learning from the Netherlands **4.** Apprenticeships for Wales: The Next Chapter
2.50 - 3.05	**Refreshments, Networking and Exhibition**
3.05 - 3.45	**Learner Panel: What's Next? Learners Looking Ahead** Coleg Cambria, Grŵp Llandrillo Menai and St David's Sixth Form College learners David Hagendyk, *ColegauCymru Chief Executive*
3.45 - 4.00	**Reflections on the Day** David Hagendyk, *ColegauCymru Chief Executive*
4.00	**Conference Closes**

Agored Cymru

@agoredcymru

There's more than one way to succeed.

Flexible qualifications for your learners with apprenticeships, and essential skills for life and employment.

Apprenticeships

Flexible qualifications across 30+ frameworks, developed with employers to meet the needs of Wales' workforce.

Essential Skills Wales

Our full Essential Skills Wales package helps learners develop vital skills needed for everyday life and work.

Skills for Employment

Level 3 qualifications in Literacy and Numeracy, with Award, Certificate, and Extended Certificate options.

There are many ways we can support you!

Scan the QR code for further details, or get in touch with our team at **businessdevelopment@agored.cymru**.



Mae mwy nag un ffordd i lwyddo.

Cymwysterau hyblyg ar gyfer eich dysgwyr gyda phrentisiaethau, a sgiliau hanfodol ar gyfer bywyd a chyflogaeth.

Prentisiaethau

Cymwysterau hyblyg ar draws 30+ fframwaith, wedi'u datblygu gyda chyflogwyr er mwyn bodloni anghenion gweithlu Cymru.

Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth

Cymwysterau Lefel 3 o fewn Llythrennedd a Rhifedd, gydag opsiynau Dyfarniad, Tystysgrif, a Thystysgrif Estynedig.

Sgiliau Hanfodol Cymru

Mae ein pecyn llawn Sgiliau Hanfodol Cymru yn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau hanfodol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd pob dydd a gwaith.

Mae sawl ffordd rydym yn gallu eich cefnogi!

Sganiwch y cod QR am fanylion pellach, neu cysylltwch â'n tîm trwy e-bostio **datblygubusnes@agored.cymru**.

Siaradwyr / Speakers

Lisa Thomas

Cadeirydd, ColegauCymru, Pennaeth / Prif Weithredwr Y Coleg Merthyr Tudful
Chair, ColegauCymru, Chief Executive / Principal of The College Merthyr Tydfil



Daeth Lisa yn Bennaeth a Prif Weithredwr Y Coleg Merthyr Tudful yn 2018, ac yn Gadeirydd ColegauCymru yn 2024.

Ymunodd â'r sector Addysg Bellach fel Pennaeth Cynorthwyol yn 2012. Mae gan Lisa Radd Meistr mewn Addysg, gyda dros 25 mlynedd o brofiad arweinyddiaeth mewn addysg a llywodraeth leol, mae hi hefyd yn arolygydd cymheiriaid profiadol Estyn. Mae Lisa wedi chwarae rhan allweddol wrth gynrychioli'r sector ar amrywiaeth o weithgorau Llywodraeth Cymru, ac i Bwyllgorau'r Senedd, gan lunio polisi'r llywodraeth.

Lisa became Principal and Chief Executive at The College Merthyr Tydfil in 2018, and Chair of ColegauCymru in 2024.

She joined the FE sector as Assistant Principal in 2012. Lisa holds a Masters Degree in Education, with over 25 years of leadership experience in education and local government, she is also an experienced Estyn peer inspector. Lisa has played a key role in representing the sector on a range of Welsh Government working groups, and to the Senedd Committees, shaping government policy.

David Hagendyk

Prif Weithredwr, ColegauCymru
Chief Executive, ColegauCymru



Mae gan David dros 20 mlynedd o brofiad ym mywyd cyhoeddus Cymru, gyda chefndir cryf mewn gwleidyddiaeth a datblygu polisi.

Cyn dod yn Brif Weithredwr ColegauCymru yn 2022, roedd yn Gyfarwyddwr Cymru yn y Sefydliad Dysgu a Gwaith. Gwasanaethodd hefyd fel Ysgrifennydd Cyffredinol Llafur Cymru am saith mlynedd. Yn gynharach yn ei yrfa, David oedd y Swyddog Cyswllt Gwleidyddol ar gyfer Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru a Phennaeth Polisi Llafur Cymru. Mae ei brofiad helaeth wedi ei arfogi ag arbenigedd sylweddol mewn arweinyddiaeth a gwaith yn y sector cyhoeddus.

David has over 20 years of experience in Welsh public life, with a strong background in politics and policy development.

Before becoming ColegauCymru Chief Executive in 2022, he was Director for Wales at Learning & Work Institute. He also served as the General Secretary of Welsh Labour for seven years. Earlier in his career, David was the Political Liaison Officer for the University and College Union Cymru and the Head of Policy for Welsh Labour. His extensive experience has equipped him with significant expertise in leadership and public sector work.

Ton 3
Wave 3

cbac wjec

Mae addysg yng Nghymru yn esblygu

Cymerwch y cam nesaf mewn dwylo diogel

Mae ton olaf Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 newydd Cymru yn lansio ym mis Medi 2027.

Darganfyddwch y cymwysterau newydd cynhwysol hyn gyda CBAC, bwrdd arholi mwyaf sefydledig Cymru:

www.cbac.co.uk/ton3

- **Project Personol**
- **Cyfres Sgiliau (Sgiliau ar gyfer Bywyd a Sgiliau ar gyfer Gwaith)**
- **Sylfaen (Cyffredinol a Seiliedig ar Waith)**
- **TAAU (Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd)**

Education in Wales is evolving

Take the next step with someone you trust

The final wave of new National 14-16 Qualifications for Wales launches September 2027.

Discover these inclusive new qualifications with WJEC, Wales' most established exam board:

www.wjec.co.uk/wave3

- **Personal Project**
- **Skills Suite (Skills for Life and Skills for Work)**
- **Foundation (General and Work Related)**
- **VCSE (Vocational Certificate of Secondary Education)**



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Made for Wales.
Ready for the world.

Siaradwyr / Speakers

Cefin Campbell AS/MS

Dirprwy Weinidog Sgiliau ac Addysg Drydyddol Llywodraeth Cymru
Welsh Government Deputy Minister for Skills and Tertiary Education



Mae Cefin Campbell AS yn Ddirprwy Weinidog Sgiliau ac Addysg Drydyddol ac yn Aelod o'r Senedd dros Sir Gaerfyrddin. Gyda chyfrifoldeb dros sgiliau, addysg bellach ac uwch, prentisiaethau ac addysg gydol oes, mae ganddo rôl allweddol yn y gwaith o lunio system addysg ôl-16 Cymru.

Mae Cefin wedi bod yn gefnogwr hirdymor i addysg bellach, ac wedi ymgysyllu'n agos â ColegauCymru a'r sector ehangach. Mae hyn yn dangos ei ddealltwriaeth gadarn o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu colegau a dysgwyr ledled Cymru.

Cefin Campbell MS is the Deputy Minister for Skills and Tertiary Education and the Senedd Member for Sir Gaerfyrddin. With responsibility for skills, further and higher education, apprenticeships and lifelong learning, he plays a key role in shaping Wales's post-16 education system.

A longstanding supporter of further education, Cefin has maintained close engagement with ColegauCymru and the wider sector, demonstrating a strong understanding of the opportunities and challenges facing colleges and learners across Wales.

James Owen

Prif Weithredwr, Medr
Chief Executive, Medr



Penodwyd James Owen yn Brif Weithredwr ym mis Awst 2025, ar ôl ymuno â Medr fel Prif Swyddog Gweithredu yn 2024.

Mae'n arwain ar oruchwylio £1bn o fuddsoddiad mewn addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, gan weithio gyda phartneriaid i feithrin cydweithio sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch. Mae James yn arwain ar gyflawni Cynllun Strategol Medr i adeiladu sector mwy cynhwysol a chysylltiedig sy'n cefnogi dysgwyr, yn cryfhau cymdeithas a'r economi, ac yn diwallu anghenion Cymru nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

James Owen was appointed Chief Executive in August 2025, having joined Medr as Chief Operating Officer in 2024.

He leads on overseeing £1bn of investment in tertiary education and research in Wales, working with partners to foster collaboration built on trust and respect. James leads on delivering Medr's Strategic Plan to build a more inclusive, connected sector that supports learners, strengthens society and the economy, and meets Wales's needs now and for future generations.

Cymhwyso dysgwyr yng Nghymru ar gyfer y dyfodol

Qualifying Wales' learners for the future

Mae Cymwysterau Cenedlaethol newydd yn cefnogi dysgwyr 14 i 16 oed wrth iddyn nhw symud ymlaen i addysg bellach.

New National Qualifications support 14 to 16-year-olds as they progress to further education.



TGAU | GCSE

TAAU | VCSE

Cyfres Sgiliau | Skills Suite

Sylfaen | Foundation

cymwysterau.cymru/cymwysteraucenedlaethol
qualifications.wales/nationalqualifications

CYMWYSTERAU CENEDLAETHOL
NATIONAL QUALIFICATIONS

CYMWYSTERAU CYMRU QUALIFICATIONS WALES

Siaradwyr / Speakers

Darren Howells

Prif Swyddog Gweithredol, Agored Cymru
Chief Executive Officer, Agored Cymru



Mae Darren wedi bod yn Brif Weithredwr Agored Cymru ers 2020, gan arwain ei gyfeiriad strategol a datblygiad cymwysterau dwyieithog.

Gyda 19 mlynedd o brofiad yn y sector addysg, bu'n gweithio mewn rolau masnachol gyda sawl corff dyfarnu ac mewn swyddi uwch ym maes marchnata yn y diwydiant diodydd. Mae Darren hefyd yn lywodraethwr yng Ngholeg Gŵyr Abertawe.

Darren has been Chief Executive Officer of Agored Cymru since 2020, leading its strategic direction and development of bilingual qualifications.

With 19 years in education, he previously held commercial roles in awarding bodies and senior marketing positions in the drinks industry. Darren is also a Governor at Gower College Swansea.

Michelle Matheron

Cyfarwyddwr Cymru, Sefydliad Dysgu & Gwaith
Director for Wales, Learning & Work Institute



Michelle yw Cyfarwyddwr Cymru'r Sefydliad Dysgu a Gwaith gan arwain y gwaith o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Medr a rhanddeiliaid allweddol.

Cyn hynny, roedd yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Allanol yn y Brifysgol Agored yng Nghymru, ac mae ganddi brofiad helaeth ym meysydd polisi, cyfathrebu a materion cyhoeddus.

Y tu allan i'r gwaith, mae hi'n ymddiriedolwr i ddwy elusen sy'n cefnogi teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan enedigaeth gynamserol.

Michelle is Director for Wales at the Learning & Work Institute, leading engagement with Welsh Government, Medr and key stakeholders.

Previously Assistant Director of External Affairs at The Open University in Wales, she has extensive experience in policy, communications and public affairs.

Outside work, she is a trustee of two charities supporting families affected by premature birth.

Siaradwyr / Speakers

Yr Athro Melanie Jones / Professor Melanie Jones

Pennaeth yr Adran Economeg, Ysgol Busnes Caerdydd
Head of the Economics Section, Cardiff Business School



Mae Melanie Jones yn Bennaeth yr Adran Economeg Ysgol Busnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd.

Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar anghydraddoldeb yn y farchnad lafur, gan gynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, anabledd, iechyd a chyflogaeth, gyda phwyslais cryf ar lywio polisïau ac arferion. Mae Melanie wedi gweithio'n helaeth gyda sefydliadau gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), y Comisiwn Cyflogau Isel a Swyddfa Economeg y Gweithlu. Mae hefyd yn aelod o Gymdeithas Ddysgedig Cymru ac o Gyngor y Gymdeithas Economeg Frenhinol.

Melanie Jones is the Head of the Economics Section at Cardiff Business School, Cardiff University.

Her research focuses on labour market inequality, including gender pay gaps, disability, health and employment, with a strong emphasis on informing policy and practice. Melanie has worked extensively with organisations including the Office for National Statistics, the Low Pay Commission and the Office of Manpower Economics, and is a member of the Learned Society of Wales and the Royal Economic Society Council.

Alwen Williams

Prif Weithredwr, Uchelgais Gogledd Cymru
Chief Executive, Ambition North Wales



Mae Alwen wedi arwain Uchelgais Gogledd Cymru ers 2020, gan hyrwyddo twf economaidd a lles rhanbarthol.

Yn flaenorol, treuliodd 24 mlynedd mewn swyddi fel arweinydd strategol a gweithredol yn BT ac Openreach.

Mae hi'n aelod o Bwyllgor Datblygu The King's Trust Cymru ac mae ganddi gymrodoriaethau anrhydeddus gan ddwy brifysgol yng Nghymru.

Alwen has led Ambition North Wales since 2020, driving regional economic growth and well-being.

Previously, she spent 24 years in strategic and operational leadership roles at BT and Openreach.

She is a member of The King's Trust Cymru Development Committee and holds honorary fellowships from two Welsh universities.

Siaradwyr / Speakers

Mark John

Cyd-Sylfaenydd, Tramshed Tech
Co-Founder, Tramshed Tech



Mae Mark yn Gyd-Sylfaenydd ac yn Gyfranddaliwr yn Tramshed Tech, lle mae wedi chwarae rhan flaenllaw yn datblygu ecosystem arloesi Cymru a chefnogi mentergarwch ledled y wlad.

Gyda chefndir mewn strategaeth ddigidol, y cyfryngau a datblygu busnes, mae Mark yn gweithio gyda sefydliadau ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat i hyrwyddo arloesi, datblygu sgiliau a thwf economaidd, ac mae'n gwasanaethu ar amrywiaeth o fyrddau rhanbarthol a chenedlaethol sy'n canolbwyntio ar dechnoleg a menter.

Mark John is Co-Founder and Shareholder of Tramshed Tech, where he has played a leading role in developing Wales' innovation ecosystem and supporting entrepreneurship across the country.

With a background in digital strategy, media and business development, Mark works with organisations across the public and private sectors to drive innovation, skills development and economic growth, and serves on a range of regional and national boards focused on technology and enterprise.

Sarah Curtis

Is-lywydd Adnoddau Dynol, Safran
Vice President of Human Resources, Safran



Mae Sarah Curtis yn Is-lywydd Adnoddau Dynol yn Safran UK.

Fel arweinydd Adnoddau Dynol sydd â chymhwyster FCIPD, mae ganddi dros 20 mlynedd o brofiad yn y sectorau awyrofod a gofal iechyd, gan arwain mentrau sy'n ymwneud â phobl, diwylliant a datblygu sefydliadol.

Mae Sarah wedi ymrwymo i greu gweithleoedd cynhwysol, datblygu talent, a chefnogi twf y gweithlu er mwyn diwallu anghenion sgiliau yn y dyfodol.

Sarah Curtis is Vice President of Human Resources at Safran UK.

An FCIPD-qualified HR leader, she has over 20 years' experience across the aerospace and healthcare sectors, leading people, culture and organisational development initiatives.

Sarah is committed to building inclusive workplaces, developing talent and supporting workforce growth to meet future skills needs.

Jisc

Transform learning.

Unlock potential.

Jisc is your partner in digital transformation, bringing innovation, insight, and impact to every step of your digital journey.

Shaping the future of education and research

Trawsnewid dysgu.

Datgloi potensial.

Jisc yw eich partner ym maes trawsnewid digidol, gan ddod ag arloesedd, craffu ac effaith i bob cam o'ch taith ddigidol.

Llunio dyfodol addysg ac ymchwil

Learn more:

Dysgu rhagor:

EVERSHEDS SUTHERLAND



Helping your future take off

Global lawyers powered by excellence

As a leading global law firm, Eversheds Sutherland provides legal advice to an international client base which includes some of the world's largest multinationals. With a long-established presence in Cardiff, we help Welsh businesses operate on a regional, national and international scale.

70+ offices

5,000+ people

30+ countries

3,000+ lawyers



Tom Bray
Senior Partner, Cardiff
T: +44 292 047 777
M: +44 790 003 0806
tombray@eversheds-sutherland.com

eversheds-sutherland.com

© Eversheds Sutherland (International) LLP and Eversheds Sutherland (US) LLP
DTUK004352_V2



Gweithdai'r Bore / Morning Workshops

1

Deallusrwydd Artiffisial ar Waith: Astudiaethau Achos mewnColegau, Gwersi a Ddysgwyd a'r Camau Nesaf

Cadeirydd: James Scorey, Coleg Caerdydd a'r Fro
Siaradwyr: Stevie Emmanuel, Coleg Caerdydd a'r Fro, Peter Scott, Coleg Gŵyr Abertawe, Michael Webb, Jisc

Sut mae ein colegau'n symud o arbrofi gydag AI i'w weithredu'n ymarferol? Byddwn yn archwilio sut mae AI yn trawsnewid addysg, cymorth i ddysgwyr a gweithrediadau colegau drwy astudiaethau achos o'r sector. Bydd siaradwyr yn rhannu'r heriau a wynebwyd, yr effaith a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd, ynghyd â mewnwelediadau i fentrau cenedlaethol a'r dirwedd ddigidol sy'n esblygu. Bydd cynrychiolwyr yn gadael gyda syniadau ymarferol, mewnwelediadau defnyddiol a dulliau y gallant eu rhoi ar waith yn eu sefydliadau eu hunain.

AI in Action: College Case Studies, Lessons Learned and What's Next

Chair: James Scorey, Cardiff and Vale College
Speakers: Stevie Emmanuel, Cardiff and Vale College, Peter Scott, Gower College Swansea, Michael Webb, Jisc

How are colleges moving from AI experimentation to practical implementation? Explore how AI is transforming education, learner support and college operations through sector case studies. Speakers will share challenges, impacts and lessons learned, alongside insights into national initiatives and the evolving digital landscape. Delegates will leave with practical ideas, actionable insights and approaches they can take back to their own institutions.

2

Addysg Oedolion mewn Addysg Bellach: Beth sy'n gweithio a beth sy'n dod nesaf?

Cadeirydd: Michelle Matheron, Cyfarwyddwr Cymru, Sefydliad Dysgu a Gwaith
Siaradwyr: Kathryn Robson, Addysg Oedolion Cymru, Gwennan Richards, Grŵp Llandrillo Menai, Kieran Keogh, Coleg Gŵyr Abertawe

Bydd y gweithdy hwn yn archwilio sut mae colegau addysg bellach yn darparu dysgu i oedolion, gan rannu arferion effeithiol a thrafod heriau a chyfleoedd cyffredin. Gan ganolbwyntio ar ddysgwyr 19 oed a throsodd, bydd yn edrych ar y rhwystrau sy'n wynebu mynediad a dilyniant, ac yn trafod sut y gall system addysg drydyddol fwy cydgysylltiedig gefnogi dysgwyr sy'n oedolion yn well drwy gydol eu taith ddysgu.

Adult Learning in FE: What works and what's next?

Chair: Michelle Matheron, Director for Wales, Learning and Work Institute
Speakers: Kathryn Robson, Adult Learning Wales, Gwennan Richards, Grŵp Llandrillo Menai, Kieran Keogh, Gower College Swansea

This workshop will explore how FE colleges are delivering adult learning, sharing effective practice while addressing common challenges and opportunities. Focusing on learners aged 19+, it will examine barriers to access and progression, and discuss how a joined-up tertiary education system can better support adult learners throughout their educational journey.

Gweithdai'r Bore / Morning Workshops

3

Dysgu ac addysgu dwyieithog: Beth nesaf?

Cadeirydd: Aled Jones-Griffith, Grŵp Llandrillo Menai
Siaradwyr: Angharad Mai Roberts, Sgiliaith,
Dr Alex Lovell, Medr, Rebecca Williams,
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Carys Jones,
Dysgwr Coleg Caerdydd a'r Fro

Bydd y sesiwn hon yn archwilio sut y gellir ymgorffori'r Gymraeg yn naturiol mewn addysgu a dysgu, gan ddatblygu sgiliau iaith ochr yn ochr ag arbenigedd pwnc. Gan ddefnyddio Cynllun Cenedlaethol Cymraeg newydd Medr fel cefndir, bydd cyfranogwyr yn trafod dulliau ymarferol o gefnogi dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Bilingual learning and teaching: What next?

Chair: Aled Jones-Griffith, Grŵp Llandrillo Menai
Speakers: Angharad Mai Roberts, Sgiliaith,
Dr Alex Lovell, Medr, Rebecca Williams,
Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Carys Jones,
Learner at Cardiff and Vale College

This session will explore how Welsh can be embedded naturally within teaching and learning, helping learners develop language skills alongside subject expertise. Using Medr's emerging National Plan for Welsh as a backdrop, participants will discuss practical approaches to supporting Welsh-medium and bilingual learning.

4

Diwygio Cymwysterau

Cadeirydd: Kelly Fountain, Coleg Gŵyr Abertawe
Siaradwyr: Kirsti Lord, Coleg Sir Gâr / Coleg Ceredigion,
Nikki Neal, Coleg Gŵyr Abertawe,
Rob Nitsch, Federation of Awarding Bodies,
Jo Richards, Cymwysterau Cymru

Ymunwch ag arweinwyr y sector ar gyfer trafodaeth ar Ddiwygio Cymwysterau Galwedigaethol Ôl-16, gan archwilio'r datblygiadau presennol, y blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol a'r goblygiadau i'r sector addysg bellach. Bydd y sesiwn yn cynnwys safbwyntiau gan arbenigwyr, trafodaeth banel, a chyfleoedd i gynadleddwyr rannu mewnwelediadau, cwestiynau a phrofiadau o bob rhan o'r sector.

Qualifications Reform

Chair: Kelly Fountain, Gower College Swansea
Speakers: Kirsti Lord, Coleg Sir Gâr / Coleg Ceredigion,
Nikki Neal, Gower College Swansea,
Rob Nitsch, Federation of Awarding Bodies,
Jo Richards, Qualifications Wales

Join sector leaders for a discussion on Post-16 Vocational Qualifications Reform, exploring current developments, future priorities and implications for the further education sector. The session will include expert perspectives, panel discussion and opportunities for delegates to share insights, questions and experiences from across the sector.

Erasmus+



Build confidence + broaden horizons

Magu hyder + ehangu gorwelion



Erasmus+ is the EU grant programme for education, training, youth and sport.

Erasmus+ yw y rhaglen grantiau UE ar gyfer addysg, hyfforddiant, ieuenctid a chwaraeon.

erasmusplus.org.uk

EUROPEAN UNION

UK Government

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Northern Ireland Executive
www.northernireland.gov.uk


BRITISH COUNCIL

FE jobs

The market leading talent attraction platform

A smarter way to attract, manage and retain education talent.

FE jobs • Hire the right educators. Faster.



Powered by Eteach
Wedi'i bweru gan Eteach

Scan to learn more
Sganiwch i ddysgu mwy

Y platfform denu talent sy'n arwain y farchnad

Ffordd glyfach o ddenu, rheoli a chadw talent addysg.

FE Jobs • Cyflogwch yr addysgwyr cywir. Yn gyflymach.

60%
Increased conversion rate after using online forms
Cyfradd trosi uwch ar ôl defnyddio ffurflenni ar-lein

3-5 hrs
Reduced admin time every week
Llai o amser gweinyddol bob wythnos

80%
Increased candidate retention in process
Cadw mwy o ymgeiswyr drwy'r broses

6 days
Reference collection time reduced from 30 days
Amser casglu geirdaon wedi'i leihau o 30 diwrnod

Gweithdai'r Prynhawn / Afternoon Workshops

1

Dychwelyd i Erasmus+: Beth Sy'n Nesaf ar gyfer Cydweithio Rhyngwladol?

Cadeirydd: Sharon James, Coleg Caerdydd a'r Fro
Siaradwyr: Jonathan Ledger, Adran Busnes, Arloesi, Gwyddoniaeth a Masnach, Fiona Horrell, British Council, Laurence Ferguson, British Council

Ymunwch â ni wrth i ni archwilio perthynas newydd y DU ag Erasmus+ a'i bwysigrwydd wrth gyflawni rhai o uchelgeisiau Strategaeth Addysg Ryngwladol Llywodraeth y DU. Dysgwch am Ganllawiau Rhaglen 2027 a'r cyfleoedd cydweithio diweddaraf ar gyfer dysgwyr, staff a phrentisiaid ym maes addysg bellach.

Returning to Erasmus+: What's Next for International Collaboration?

Chair: Sharon James, Cardiff and Vale College
Speakers: Jonathan Ledger, Department for Business, Innovation, Science and Trade, Fiona Horrell, British Council, Laurence Ferguson, British Council

Join us as we explore the UK's renewed relationship with Erasmus+ and its importance achieving some of the ambitions of the UK government's International Education Strategy. Learn about the 2027 Programme Guide and the latest collaboration opportunities for learners, staff and apprentices across further education.

2

Llwybrau Dysgu 16-19

Cadeirydd: Jonathan Morgan, Coleg y Cymoedd
Siaradwyr: Leanne Jones, Y Coleg Merthyr Tudful, Siôn Peters Flynn, Grŵp Llandrillo Menai, Carly Davies, Medr, Darren Phillips, Medr, Huw Davies, Consortiwm Ôl-16 Gwynedd a Môn

Bydd y gweithdy hwn yn archwilio cydweithio effeithiol rhwng colegau ac awdurdodau lleol wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer llwybrau dysgwyr 16-19 oed. Trwy astudiaethau achos dan arweiniad colegau, bydd siaradwyr yn rhannu enghreifftiau ymarferol o weithio mewn partneriaeth, ac yna trafodaeth a chyfle i'r gynulleidfa ofyn cwestiynau a rhannu safbwyntiau ar wella dewis dysgwyr, cyfleoedd i symud ymlaen a chynllunio addysg leol.

16-19 Learning Pathway

Chair: Jonathan Morgan, Coleg y Cymoedd
Speakers: Leanne Jones, The College Merthyr Tydfil, Siôn Peters Flynn, Grŵp Llandrillo Menai, Carly Davies, Medr, Darren Phillips, Medr, Huw Davies, The Gwynedd and Môn Post-16 Consortium

This workshop will explore effective collaboration between colleges and local authorities in developing successful 16-19 learner pathways. Through college-led case studies, speakers will share practical examples of partnership working, followed by discussion and audience questions on improving learner choice, progression opportunities and local education planning.

Gweithdai'r Prynhawn / Afternoon Workshops

3

Cryfhau Llais y Dysgwr: Dysgu o'r Iseldiroedd

Cadeirydd: Viv Buckley, Coleg Penybont
Siaradwyr: Jesse Kokx, JOBmbo,
Imad Arras Raoui, JOBmbo, Hannah Reilly, Medr,
JoAnna Singh, Bridgend College,
Joseph Evans, Dysgwr Y Coleg Merthyr Tudful

Bydd y gweithdy hwn yn archwilio sut mae colegau yng Nghymru a'r Iseldiroedd yn cefnogi llais y dysgwr ac ymgysylltiad dysgwyr mewn ffordd ystyrlon. Drwy rannu ymchwil, astudiaethau achos a phrofiadau ymarferol, bydd cyfranogwyr yn archwilio dulliau effeithiol o gynnwys dysgwyr, yn rhannu syniadau â chydweithwyr yn y sector, a nodi cyfleoedd ar gyfer arloesi.

Strengthening Learner Voice: Learning from the Netherlands

Chair: Viv Buckley, Bridgend College
Speakers: Jesse Kokx, JOBmbo,
Imad Arras Raoui, JOBmbo, Hannah Reilly, Medr,
JoAnna Singh, Bridgend College,
Joseph Evans, Learner at The College Merthyr Tydfil

This workshop will explore how colleges in Wales and the Netherlands support meaningful learner voice and learner engagement. Through sharing research, case studies and practical experiences, participants will examine effective approaches to learner participation, exchange ideas with sector colleagues, and identify opportunities for future innovation.

4

Prentisiaethau i Gymru: Y Bennod Nesaf

Cadeirydd: Dr Barry Walters, Coleg Sir Benfro
Siaradwyr: Heather Davidson, Medr, Liam Revell,
Ledwood Mechanical Engineering Ltd,
Matthew Allman, Llywodraeth Cymru,
Hanna Griffiths, Prentis, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Hywel Dda

Gyda diwygiadau i'r Rhaglen Brentisiaethau ar y gorwel, bydd y sesiwn hon yn archwilio sut y gallwn greu system brentisiaethau mwy hyblyg, cynaliadwy ac uchelgeisiol sy'n diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr, yn cefnogi twf economaidd, ac yn ymateb i'r prif gyfleoedd a heriau a nodwyd gan ColegauCymru a'r sector addysg bellach.

Apprenticeships for Wales: The Next Chapter

Chair: Dr Barry Walters, Pembrokeshire College
Speakers: Heather Davidson, Medr, Liam Revell,
Ledwood Mechanical Engineering Ltd,
Matthew Allman, Welsh Government,
Hanna Griffiths, Apprentice, Hywel Dda
University Health Board

With reform to the Apprenticeships Programme on the way, this session will explore how we can create a more flexible, sustainable and ambitious apprenticeship system that meets the needs of learners, employers, supports economic growth, and responds to the key opportunities and challenges identified by ColegauCymru and the FE sector.

Noddwyr / Sponsors

Agored Cymru

www.agored.cymru

Fel Corff Dyfarnu blaenllaw yng Nghymru sy'n datblygu cymwysterau galwedigaethol a phrentisiaethau dwyieithog, mae Agored Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu gwneud y gorau o'u potensial.

As a leading Welsh Awarding Body developing bilingual vocational qualifications and apprenticeships, Agored Cymru is committed to ensuring all learners maximise their potential.

CBAC / WJEC

www.cbac.co.uk www.wjec.co.uk

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn darparu cymwysterau dibynadwy, cymorth arbenigol ac asesu. Wrth weithio gydag ysgolion, colegau a phartneriaid, rydym yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer system addysg sy'n destun balchder.

As Wales' largest awarding body, WJEC provides trusted qualifications, specialist support and assessment. Working with schools, colleges and partners, we support the Welsh Government's ambition for an education system that is a source of pride.

British Council

www.britishcouncil.org

Erasmus+ yn dychwelyd! Mae Erasmus+ yn galluogi darparwyr Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (VET) i gydweithio â sefydliadau ledled Ewrop, gan gynnig profiad rhyngwladol gwerthfawr i fyfyrwyr a staff. Mae cyfleoedd a ariennir yn helpu i ddatblygu sgiliau, meithrin hyder, gwella cyflogadwyedd ac ehangu mynediad i ddysgwyr.

Erasmus+ is back! Erasmus+ enables VET providers to partner with institutions across Europe, offering students and staff valuable international experience. Funded opportunities help develop skills, build confidence, enhance employability, and widen access for learners.

Eteach

www.eteach.com

Cyrhaeddwch yr addysgwyr cywir yn gyflymach gyda FEjobs, prif fwrdd swyddi'r DU sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar addysg bellach. Cysylltwch â dros 500,000 o ymgeiswyr cofrestredig a denu miloedd o geisiadau bob mis.

Reach the right educators faster with FEjobs, the UK's leading FE-only job board. Connect with 500,000+ registered candidates and attract thousands of applications every month.

Noddwyr / Sponsors

Jisc

www.jisc.ac.uk

Mae Jisc yn sefydliad dielw sy'n darparu seilwaith a gwasanaethau digidol ar gyfer addysg ac ymchwil yn y DU. Mae ei Rwydwaith Janet yn darparu cysylltedd diogel, diogelwch seiber a gwasanaethau hunaniaeth i ysgolion, colegau, prifysgolion a sefydliadau ymchwil ledled y wlad.

Jisc is a not-for-profit organisation providing digital infrastructure and services for UK education and research. Its Janet Network delivers secure connectivity, cyber security and identity services to schools, colleges, universities and research organisations nationwide.

Pearson

www.pearson.com

Mae Pearson yn credu bod pob cyfle dysgu yn gyfle i ddatblygu'n bersonol. Nhw yw cwmni dysgu blaenllaw'r byd, gan wasanaethu cwsmeriaid mewn bron i 200 o wledydd gyda chynnwys digidol, asesiadau, cymwysterau a data.

Pearson believes that every learning opportunity is a chance for a personal breakthrough. They are the world's leading learning company, serving customers in nearly 200 countries with digital content, assessments, qualifications, and data.

Cymwysterau Cymru / Qualifications Wales

www.cymwysterau.cymru www.qualifications.wales

Cymwysterau Cymru yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru, gan sicrhau bod cymwysterau'n ddibynadwy, yn deg ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn cynnal safonau ac yn cefnogi arloesedd i helpu dysgwyr i lwyddo mewn addysg a chyflogaeth.

Qualifications Wales is the independent regulator of non-degree qualifications in Wales, ensuring qualifications are trusted, fair and valued. It promotes the Welsh language, upholds standards and supports innovation to help learners succeed in education and employment.



Pearson

Teach BTEC with confidence



The post-16 Level 3 vocational qualification reforms currently affect England only, and do not affect Wales.

BTEC Nationals are high-quality, career-focused qualifications designed to give students the skills they need to move onto higher education (such as BTEC Higher Nationals and university) or employment.

Scan the QR code to find out more about delivering BTEC, and view your funding guide

ColegauCymru
CollegesWales

SGANIWCH FI

SCAN ME

Adborth Cynhadledd
Conference Feedback

https://forms.cloud.microsoft/e/kZBk7WNMic


RICOH
RICOH
RICOH


TWF, CYFLE A THEG
OWTH,
FAIRN
TOM
EST. 1985

Arddangoswyr
Exhibitors

1.	Agored Cymru
2.	Ascentis
3.	British Council
4.	ColegauCymru
5.	Challenges Abroad
6.	Eteach
7.	Estyn
8.	Cyngor y Gweithlu Addysg / Education Workforce Council
9.	Geldards
10.	Jisc
11.	Mindful Education
12.	NUS Cymru
13.	Pearson
14.	Cymwysterau Cymru / Qualifications Wales
15.	VTCT Skills
16.	CBAC / WJEC




D FAIRNESS
Conference 2025

ColegauCymru
CollegesWales

helo@colegaucymru.ac.uk / hello@collegeswales.ac.uk
www.colegau.cymru #CynhadleddCC26 #CCConf26